Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Adroddiad Monitro ar y Safonau Iaith Gymraeg

## Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Gorffennaf 2018

## 1. Rhagarweiniad

**Y Brifysgol**

- Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn sefydliad addysg uwch a wynebodd newidiadau strwythurol sylweddol iawn yn ystod y degawd diwethaf. Sefydlwyd y Brifysgol yn 2012 pan unwyd Coleg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Llambed. Ymunodd Prifysgol Fetropolitan Abertawe â'r Brifysgol yn ystod 2015 gyda Choleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn ymuno i greu Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2013/14. Erbyn 2017, roedd Prifysgol Cymru hefyd yn rhan o lywodraethiant y Grŵp.

- Yn ei Chynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2017-2022 mae'r Brifysgol yn nodi mai ei gweledigaeth yw 'bod yn brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth a wnawn.' Un o'i saith o werthoedd creiddiol yw 'Cymru a'i chymeriad arbennig' gan 'ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.'

**Y Safonau**

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae hefyd yn fodd o sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

  Bwriad y Safonau hyn yw:

  - darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau ym ymwneud â'r Gymraeg;
  - darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
  - sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

- Ers 1af Ebrill 2018, mae gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel a nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a ddosbarthwyd ar 29 Medi 2017. Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

  Mae'r adroddiad monitro hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch y modd y mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau o fewn y cyfnod adrodd.

## 2. Cyraeddiadau

- Darparwyd hyfforddiant ar y Safonau Iaith arfaethedig i holl aelodau staff y Brifysgol mewn digwyddiadau hyfforddi ar gampysau Llambed, Caerfyrddin ac Abertawe yn ystod Wythnos Datblygiad Staff y Brifysgol ym Medi 2017. Gwahoddwyd holl reolyddion canol y sefydliad, boed yn Benaethiaid Ysgol neu'n Benaethiaid Unedau Proffesiynol, i sesiynau hyfforddi pellach ar y Safonau Iaith yn Abertawe, Caerfyrddin a Llambed ym mis Ebrill 2018 a ddarparwyd gan y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol. Mynychodd 38 o reolyddion y sesiynau hyn.

- Sefydlwyd Rhagoriaith: Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol yn 2017 gyda'r bwriad o gefnogi a chynghori staff yng nghyd-destun y Gymraeg ar draws y sefydliad. Cyflwynwyd cais am swydd o fewn Rhagoriaith y byddai ei deilydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau. Er y lluniwyd y swydd ddisgrifiad yn ystod y cyfnod o dan sylw, ni hysbysebwyd y swydd tan Dymor yr Hydref 2018. Yn dilyn proses gyfweld, cychwynnodd y deiliad yn ei swydd fel Cydlynydd Tîm Rhagoriaith ddiwedd Rhagfyr 2018.

- Darparodd aelod o Ragoriaith sesiynau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer sawl Uned Broffesiynol rhwng Ebrill a Gorffennaf 2018 a chynhyrchwyd rhai adnoddau i gyd-fynd â'r hyfforddiant hwnnw.

- Ymatebwyd i'r angen am hyfforddiant ieithyddol ar gyfer staff yr amrywiol gampysau a manteisiwyd ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bu'r cynllun hwn y tu hwnt o lwyddiannus gyda 28 o staff yn mynychu. Hyd at ddiwedd Gorffennaf 2018, cofrestrodd 79 o staff hefyd ar y rhaglen 10 awr ar-lein a luniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

- Mae'r Uned Gyfieithu yn rhan allweddol o'r isadeiledd sy'n cefnogi'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

- Wrth edrych i'r dyfodol, mae penodiad Cydlynydd Tîm ar gyfer Rhagoriaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth mawr, gyda hyfforddiant trylwyr yn cael ei ddarparu ar gyfer Unedau penodol, gweithdrefnau'n cael eu monitro'n fanylach a chyngor parod ar gael ar gyfer staff unigol ac Ysgolion neu Unedau fel ei gilydd.

## 3. Llywodraethiant a Monitro

- Pwyllgor Materion Cymraeg y Brifysgol sy'n gyfrifol am fonitro'r modd y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am ddiweddaru'r Pwyllgor Polisi Academaidd a'r Senedd bob tymor ynghylch y modd y mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r Safonau. Y Pwyllgor Materion Cymraeg sydd hefyd yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol, a chaiff hwnnw, yn ei dro, ei gyflwyno i sylw Is-Bwyllgor Llywodraethiant y Cyngor.

- Nid oedd swyddog yn gyflogedig gan y Brifysgol yn ystod y cyfnod adrodd a oedd yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth ddyddiol y Brifysgol â'r Safonau. Y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Cyfrwng Cymraeg a Phrosiectau) oedd yn gyfrifol am y Safonau Iaith ar draws y sefydliad bryd hynny.

- Yn dilyn ei phenodiad ym mis Rhagfyr 2018, Cydlynydd Tîm Rhagoriaith: Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol, sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth ddyddiol y Brifysgol â'r Safonau. Bydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer holl staff y sefydliad yng nghyd-destun y Safonau Iaith ac yn gyfrifol am gefnogi Ysgolion/Unedau Proffesiynol o ddydd i ddydd. Bydd y swyddog yn adrodd ar unrhyw ddatblygiadau o bwys i'r Pwyllgor Materion Cymraeg yn y lle cyntaf.

- Yn dilyn penodiad Cydlynydd Tîm Rhagoriaith, sefydlwyd Pwyllgor Monitro'r Safonau Iaith a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Materion Cymraeg. Bydd hwn yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnwys cynrychiolaeth o lysgenhadon Cymraeg yr Ysgolion a'r Unedau Proffesiynol, cynrychiolwyr myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Brifysgol.

- Mae'r Uned Gwasanaethau Corfforaethol wedi llunio templed i'w ddefnyddio fel dull o fonitro cydymffurfiaeth Ysgolion ac Unedau Proffesiynol y Brifysgol â'r Safonau Iaith. Y ddogfen hon sy'n gweithredu fel sail cychwynnol ar gyfer y broses fonitro.

- Mae'r Brifysgol hefyd yn rhoi sylw i Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sy'n tynnu sylw sefydliadau at enghreifftiau o arfer dda, a lle bo angen datblygu trefniadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwella profiad y cwsmer. Yn yr un modd, bydd staff priodol yn mynychu seminarau arferion llwyddiannus a drefnir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg lle rhennir arferion da gan sefydliadau ledled Cymru.

## 4. Cydymffurfio

Derbyniodd holl staff y Brifysgol hyfforddiant cychwynnol ar y Safonau Iaith tra darparwyd sesiwn hyfforddi 90 munud ar gyfer tua deugain o arweinwyr Ysgolion ac Unedau Proffesiynol yn pwysleisio gofynion y Safonau a'r cyfrifoldeb oedd arnynt i sicrhau bod eu hadrannau'n cydymffurfio â hwy. Derbyniwyd ymatebion tra gwahanol yn ystod y sesiynau hyfforddi hyn, gyda chynrychiolwyr un campws yn benodol yn fwy pryderus o lawer ynghylch eu gallu i gydymffurfio'n llwyr â rhai o'r Safonau mwyaf heriol.

Cyfathrebwyd â'r gweithlu trwy Fwletin Staff misol y Brifysgol gan eu hatgoffa fod y Safonau'n weithredol ar 1af Ebrill 2018.

Er nad oedd y ddogfen ar gael rhwng Ebrill a Gorffennaf 2018, mae *Cynllun Gweithredu'r Safonau Iaith* yn egluro sut mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau.

## 5. Cwynion

Gall y Brifysgol gadarnhau na dderbyniodd unrhyw gwynion swyddogol yn ymwneud â'r Gymraeg na'r Safonau Iaith yn ystod y cyfnod adrodd.

## 6. Sgiliau Cymraeg y rheini a gyflogid gan y Brifysgol ddiwedd Gorffennaf 2018

### (i) Canran y staff academaidd a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fesul cyfadran

| | **% Gallu addysgu** | **% Methu addysgu** | **% Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Y Gyfadran Bensaernïaeth, Cyfrifiadura a Pheirianneg | 0.0% | 75.9% | 24.1% |
| Y Gyfadran Gelf a Dylunio | 4.4% | 60.3% | 35.3% |
| Y Gyfadran Fusnes a Rheolaeth | 9.4% | 74.1% | 16.5% |
| Cyfadran y Dyniaethau a Chelfyddydau Perfformio | 11.5% | 62.3% | 26.2% |
| Yr Athrofa | 46.0% | 40.2% | 13.8% |

### (ii) Canran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol) a oedd yn gallu siarad Cymraeg

| | **Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl** | **Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl** | **Ddim yn gallu siarad Cymraeg** | **Anhysbys** |
|---|---|---|---|---|
| Canran | 22.5% | 22.3% | 37.4% | 17.8% |

**Nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg**

Mynychodd 28 aelod o staff hyfforddiant yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18 i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg.

**Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn neu linyn gwddf 'Iaith Gwaith'**

Anogir holl staff y Brifysgol sy'n siaradwyr Cymraeg ac yn gweithio yn y rheng flaen wrth ddelio â'r cyhoedd i wisgo bathodyn neu linyn gwddf 'Iaith Gwaith'. Archebwyd cyflenwad ychwanegol o fathodynnau yn ystod cyfnod yr adrodd. Mae'r Brifysgol yn hyderus fod canran uchel y Cymry Cymraeg a oedd yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn gwisgo naill ai fathodyn neu linyn gwddf 'Iaith Gwaith' yn ystod y cyfnod adrodd.

**Swyddi newydd a gwag**

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ynghyd â chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

| Nifer y swyddi | Canran y penodiadau Cymraeg |
|---|---|
| 82 | 19.5% |

## 7. Targedau

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn fod y cyfnod adrodd yn cynrychioli misoedd cyntaf y cyfnod cydymffurfiaeth. Yn sgil ei phrofiad cychwynnol wrth gydymffurfio â'r Safonau, mae'r Brifysgol wedi gosod y targedau canlynol ar gyfer y cyfnod Awst 2018 – Gorffennaf 2019.

| | Targed | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Penodi Cydlynydd Tîm ar gyfer Rhagoriaith: Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol a fydd gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth ddyddiol y Brifysgol â'r Safonau Iaith. | Pro Is-Ganghellor Cysylltiol / Cyfarwyddydd Rhagoriaith | Tymor yr Hydref 2018 |
| 2. | Sefydlu pwynt cyswllt canolog ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau Iaith. | Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Tymor y Gwanwyn 2019 |
| 3. | Mapio cyraeddiadau'r Brifysgol ar draws y tri phrif gampws yn erbyn yr holl Safonau Iaith. | Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Gorffennaf 2019 |
| 4. | Sefydlu proses lywodraethu gadarn a fydd yn caniatáu i'r swyddogion priodol adrodd ar gynnydd wrth Bwyllgor Monitro'r Safonau Iaith, y Pwyllgor Materion Cymraeg, y Senedd a Chyngor y Brifysgol. | Pro Is-Ganghellor Cysylltiol / Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Tymor y Gwanwyn 2019 |
| 5. | Sefydlu teilsen benodol ar 'Y Gymraeg yn Y Drindod Dewi Sant' ar gyfer mewnwe'r Brifysgol a fydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y Safonau Iaith ynghyd ag adnoddau i gefnogi staff sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â'r cyhoedd. | Pro Is-Ganghellor Cysylltiol / Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Tymor y Gwanwyn 2019 |
| 6. | Sefydlu a dilysu gweithdrefnau priodol er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau Iaith gan eu hyrwyddo'n fewnol ymysg staff y campysau a'u cyhoeddi ar y wefan sefydliadol. | Pro Is-Ganghellor Cysylltiol / Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Tymor yr Haf 2019 |
| 7. | Sefydlu gweithdrefnau casglu data priodol a'u gweithredu'n gyson ar draws holl gampysau'r Brifysgol. | Pro Is-Ganghellor Cysylltiol / Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Tymor yr Haf 2019 |
| 8. | Datblygu a chyflwyno rhaglen Ymwybyddiaeth Iaith ar-lein y bydd gofyn i holl staff y sefydliad gofrestru arni a'i chwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2019. | Cydlynydd Tîm Rhagoriaith / Cyfarwyddydd Rhagoriaith | Tymor yr Haf 2019 |
| 9. | Codi ymwybyddiaeth holl unedau proffesiynol y Brifysgol o'r Safonau Iaith trwy ddigwyddiadau anffurfiol ynghyd â hyfforddiant mwy ffurfiol. | Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Parhaus |
| 10. | Ailymweld â phrosesau penodi'r Brifysgol gan sicrhau ystyriaeth fwy trylwyr o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi penodol. | Cyfarwyddydd yr Uned Adnoddau Dynol / Pro Is-Ganghellor Cysylltiol / Cyfarwyddydd Rhagoriaith / Cydlynydd Tîm Rhagoriaith | Gorffennaf 2019 |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad monitro hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Brifysgol trwy anfon ebost at iaithgymraeg@pcydds.ac.uk